



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dydd Iau 26 Ionawr 2017

Amser: 10:30y.b. tan 12:30y.p.

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell
SCC002

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
MA	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
RB	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
AL	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, HDP
NR	Swyddog Gweithredu Cadarnhaol HDP (11y.b. ymlaen)
CB	Swyddog Cymorth Gwaith Achos – SCHTh (11y.b. ymlaen)
DB	Prif Arolygydd Partneriaethau'r Dwyrain (11.30y.b. ymlaen)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

BS	Ymgynghorydd Annibynnol
DM	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
HT	Cyfarwyddwr Ystadau – SCHTh

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol:-

Cam Gweithredu	Manylion	Perchennog	Statws
5	NM a PS i gwrdd â'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl i gynghori ynghylch cyfathrebu â phobl fyddar adeg gwewyr meddwl.	NM/PS/MBr	Cyfarfu NM/PS a chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Hywel Dda â'r cydlynnydd Iechyd meddwl ar 26 Ionawr 2017 er mwyn trafod y mater o gyfathrebu â pherson byddar adeg gwewyr meddwl. Cafwyd trafodaeth am gyfathrebu mewn sefyllfaoedd amrywiol a chytunwyd y byddai'r eitem hon yn cael ei symud ymlaen gyda chyfarfod gydag AL.

Nododd DT bod angen i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (GYA) adolygu'r cynnydd a wneir gan y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl o ystyried nad oes bwrdd prosiect bellach.

Cam gweithredu: Gwahodd aelod o'r GYA i gyfarfodydd Iechyd meddwl strategol er mwyn rhoi cyngor annibynnol.

Rhoddodd AL ddiweddariad mewn perthynas â'r ymweliad â Gorsaf Aberhonddu, a chadarnhaodd bod materion a godwyd mewn perthynas â dalfeydd fel rhan o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu symud ymlaen. Diolchodd AL i bawb am eu cyfraniad.

Nodwyd bod angen diweddariad gan Heddwyn Thomas mewn perthynas â chynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau bod cynlluniau gorsafoedd newydd yn hygyrch.

Cam gweithredu: Heddwyn Thomas i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau bod cynlluniau gorsafoedd heddlu newydd yn hygyrch.

4. Cylch Gorchwyl i'w drafod

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag eitem 2.6 yn y cylch gorchwyl h.y. pwy ddylai enwebu cadeirydd newydd. Awgrymwyd y dylai'r GYA ddewis cadeirydd yn hytrach na'r heddlu a SCHTh. Roedd 5 aelod a oedd yn bresennol yn cytuno y dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y GYA yn parhau'n annibynnol o'r heddlu.

Hefyd, cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cworwm sydd angen. Awgrymwyd y dylai isafswm o aelodau fod yn bresennol ar gyfer y cworwm, yn hytrach na chanran. Hefyd, awgrymwyd y dylid defnyddio pleidlais gyfrinachol drwy e-bost yn ôl yr angen er mwyn i'r GYA ddod i benderfyniad.

Cam gweithredu: AL i ddiwygio'r cylch gorchwyl a'u rhannu ymysg y grŵp er mwyn dod â'r mater i ben yn y cyfarfod nesaf.

5. Amlinelliad byr ar gyfarfodydd/gweithgareddau y mae pob aelod o'r GYA wedi mynychu yn ystod 2016

Cyfarfod â'r DBG a SCHTh

Diweddarodd NH y grŵp am gyfarfod a gafodd gyda'r CHTh. Nodwyd bod y cyfarfod yn gadarnhaol iawn a bod materion a godwyd wedi'u trin yn briodol.

Yn ogystal, rhoddodd NH ddiweddariad mewn perthynas â'i chyfarfod â'r PGC/DD Liane James, gan gadarnhau y bu'n gyfarfod cadarnhaol iawn gyda thrafodaeth ynghylch recriwtio cymunedau amrywiol yn ogystal â materion LHDT.

Cyfarfod o'r Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth

Rhoddodd NH ddiweddariad o gyfarfod y Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth y bu'n bresennol ynddo, gan gynnwys y mathau o faterion y mae'r Bwrdd yn eu hystyried.

Sesiwn Wybodaeth Genedlaethol am y Broses Stopio a Chwilio

Rhoddodd DT wybodaeth i'r grŵp mewn perthynas â sesiwn wybodaeth genedlaethol y bu ef a'r Prif Arolygydd Amanda Diggins yn bresennol ynddi ar 30 Tachwedd 2016 ynglŷn â'r defnydd gorau o'r broses stopio a chwilio. Rhoddwyd crynodeb o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

Cam gweithredu: DT i anfon ei nodiadau o'r Sesiwn Wybodaeth Genedlaethol am y Broses Stopio a Chwilio at MB er mwyn iddi eu dosbarthu i aelodau'r grŵp hwn.

Y Cynllun Heddlu a Throseddu Drafft

Mynychodd JJ ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp ynglŷn â'i bresenoldeb.

Cam gweithredu: Gosod amlinelliad byr ar gyfarfodydd/gweithgareddau y mae pob aelod wedi mynychu fel cynrychiolydd y GYA ar agenda'r GYA fel eitem barhaol.

6. Swyddogion Troseddau Casineb – eu gallu i gefnogi

Mynegodd NH bryderon o ran pa un ai a oes gan bob swyddog y gallu i adnabod trosedd casineb. Rhoddwyd enghraifft lle yr ystyriwyd ei bod hi'n amlwg bod dioddefydd trosedd yn cael ei dargedu oherwydd anabledd, fodd bynnag, ni roddwyd cymorth i'r dioddefydd gan Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb.

Diolchodd DB i NH am yr adborth. Cadarnhaodd DB bod 110 o swyddogion cymorth troseddau casineb wedi'u hyfforddi ledled yr heddlu a'i fod yn fodlon eu bod nhw'n medru adnabod pob trosedd a digwyddiad casineb, a rhoi cymorth i ddioddefwyr. Cadarnhawyd bod pob swyddog gweithredol wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Medi 2015 a bod swyddogion a SCCH newydd a staff newydd yn y Ganolfan Gyfathrebu'n derbyn hyfforddiant er mwyn adnabod troseddau casineb pan maen nhw'n cychwyn gweithio i'r Heddlu.

Mewn perthynas â'r ymholiad penodol a godwyd, gofynnodd DB i NH roi'r manylion iddo ar ddiwedd y cyfarfod, ac y byddai'n ymchwilio i'r mater.

Cam gweithredu: DB i ymchwilio i'r mater a godwyd gan NH lle nad oedd troseddau casineb wedi'i nodi fel ffactor cymhellol mewn ymchwiliad.

Holwyd pa mor aml yr ydym ni'n codi ymwybyddiaeth ynghylch troseddau casineb ac yn atgoffa swyddogion am y broblem hon. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â throseddau casineb a'r gwiriadau sydd gan yr heddlu mewn grym i sicrhau bod digon o gyfleoedd i nodi unrhyw hepgoriadau i fflagio presenoldeb casineb. Nodwyd bod cofnod System Ymchwilio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei ddefnyddio er mwyn coladu'r holl ddigwyddiadau gwahanol ac y dylai'r broses hon sicrhau bod unrhyw fylchau mewn perthynas â throseddau casineb yn cael eu nodi.

7. Gweithredu Cadarnhaol

Esboniodd NR weithredu cadarnhaol i'r grŵp, a phwrpas ei rôl. Cadarnhaodd bod strategaeth gweithredu cadarnhaol yn cael ei rhoi ar waith, ac fel rhan o hyn, mae NR wedi mynychu digwyddiadau gyrfa er mwyn sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion/ colegau a'r gymuned.

Gofynnodd NR i'r grŵp am syniadau ynghylch yr hyn y dylai'r strategaeth gweithredu cadarnhaol gynnwys yn eu barn nhw.

Nododd DT y gall pobl â phrofiad byw fod yn werthfawr iawn i'r heddlu. Awgrymwyd y dylid geirio disgrifiadau swydd er mwyn annog pobl â phrofiad byw i wneud cais.

Cam Gweithredu: Aelodau'r GYA i anfon unrhyw syniadau ymlaen mewn perthynas â'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol i MBr.

8. Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Rhoddodd AL ddiweddariad byr i'r grŵp mewn perthynas â'r cynnydd o ran yr amcanion Cydraddoldeb Strategol. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei ddrafftio cyn hir, a'i rannu â'r grŵp ar gyfer eu sylwadau.

Cam Gweithredu: Gwahodd aelodau'r GYA i lansiad "Gweithio Tuag at ddod yn Sefydliad Dementia Gyfeillgar" sy'n cael ei gynnal yn y Pencadlys ym mis Chwefror 2017.

9. Unrhyw Fusnes Arall

Nododd y Cadeirydd ei bod hi'n adnabod ymgeisydd ar gyfer y GYA, a dywedodd wrth y grŵp am wrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â chyfweld â'r unigolyn.

Cadarnhaodd y grŵp nad oedd unrhyw bryderon o ran y Cadeirydd yn cyfweld â'r unigolyn gan mai cyfarfod anffurfiol ydoedd, yn hytrach na chyfweliad ffurfiol. Byddai AL hefyd yn bresennol er mwyn cynnig persbectif annibynnol.

10.MB

Mae MB wedi ymddiswyddo fel aelod o'r GYA. Diolchodd y cadeirydd i'r unigolyn am y cyfraniad gwerthfawr a gafwyd dros y blynyddoedd.

Rhif y cam gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Perchennog
1	Gwahodd aelod o'r GYA i gyfarfodydd iechyd meddwl strategol er mwyn rhoi cyngor annibynnol.	MBr
2	Heddwyn Thomas i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau bod cynlluniau gorsafoedd heddlu newydd yn hygyrch.	MBr
3	AL i ddiwygio'r cylch gorchwyl a'u rhannu ymysg y grŵp er mwyn dod â'r mater i ben yn y cyfarfod nesaf.	AL
4	DT i anfon ei nodiadau o'r Sesiwn Wybodaeth Genedlaethol am y Broses Stopio a Chwilio at MB er mwyn iddi eu dosbarthu i aelodau'r grŵp hwn.	DT
5	Gosod amlinelliad byr ar gyfarfodydd/gweithgareddau y mae pob aelod wedi mynychu fel cynrychiolydd y GYA ar agenda'r GYA fel eitem barhaol.	MBr
6	DB i ymchwilio i'r mater a godwyd gan NH lle nad oedd troseddau casineb wedi'i nodi fel ffactor	DB

	cymhellol mewn ymchwiliad.	
7	Aelodau'r GYA i anfon unrhyw syniadau ymlaen mewn perthynas â'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol i MBr.	Pob aelod
8	Gwahodd aelodau'r GYA i lansiad "Gweithio Tuag at ddod yn Sefydliad Dementia Gyfeillgar" sy'n cael ei gynnal yn y Pencadlys ym mis Chwefror 2017.	AL